Adroddiad Blynyddol y Prif Gomisiynydd Ar-wylio i'r Prif Weinidog a Gweinidogion yr Alban ar gyfer 2002-2003

DAN RAN III DEDDF YR HEDDLU 1997 A RHANNAU II A III DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIOL 2000 A DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIOL (YR ALBAN) 2000

HC 1062
SE/2003/244

£6.50

Adroddiad Blynyddol y Prif Gomisiynydd Ar-wylio i'r Prif Weinidog a Gweinidogion yr Alban ar gyfer 2002-2003

Prif Gomisiynydd:
SYR ANDREW LEGGATT

Cyflwynwyd i'r Senedd gan y Prif Weinidog
yn unol ag adran 107(3)
Deddf yr Heddlu 1997

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin
i'w argraffu
9 Medi 2003

Cyflwynwyd gerbron Senedd yr Alban
gan Weinidogion yr Alban
Medi 2003

Cynnwys

Tud.

1. Cyflwyniad

2. Trosolwg o'r flwyddyn

3. Y Darpariaethau Statudol

4. Cyflawni fy nyletswyddau
   - Goruchwylio
   - Apeliadau
   - Adrodd i'r Prif Weinidog a Gweinidogion yr Alban

5. Trefn Busnes Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio

6. Ymyrryd ag eiddo ac ar-wylio ymwthiol
   - Ystadegau

7. Delio ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith

8. Ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol (CHIS)

9. Arolygiadau
   - Asiantaethau gorfodi'r gyfraith
   - Adrannau'r Llywodraeth a chyrff cysylltiedig
   - Awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr
   - Awdurdodau lleol yn yr Alban
   - Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr
   - Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn yr Alban
   - Cyrff cyhoeddus eraill
   - Blaenoriaethau

10. Y flwyddyn sydd i ddod

Atodiad A Awdurdodiadau a roddwyd dan Ran III Deddf yr Heddlu 1997 oddi ar ei gweithredu

Atodiad B Awdurdodiadau ar-wylio ymwthiol a roddwyd dan Ran II Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol 2000 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol (Yr Alban) 2000 oddi ar eu gweithredu

Atodiad C Amlder arolygiadau

1. Cyflwyniad

1.1 Hwn yw fy mhedwerydd adroddiad ac mae'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2002 a 31 Mawrth 2003.

1.2 Fy nyletswydd yw arolygu (a) y modd y cyflawnir swyddogaethau dan Ran III Deddf yr Heddlu 1997 ('Deddf 1997'), (b) (ac eithrio mewn perthynas â rhyng-gipio negeseuon a'r Gwasanaethau Cudd-ymchwil) y modd y defnyddir ac y cyflawnir y pwerau a'r dyletswyddau a gyflwynwyd neu a roddwyd gan Ran II Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol 2000 ('RIPA'), neu dan y ddeddf honno, a (c) y modd y defnyddir ac y cyflawnir y pwerau a'r dyletswyddau a gyflwynwyd neu a roddwyd gan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol (Yr Alban) 2000 ('RIP(S)A'), neu dan y ddeddf honno. Yn ymarferol, mae hyn yn cynnwys yr holl weithgareddau cudd, ac eithrio clustfeinio ar alwadau ffôn, a gynhelir gan yr holl awdurdodau cyhoeddus, ac eithrio'r gwasanaethau cudd-ymchwil. Yr wyf hefyd yn gyfrifol am Ran III RIPA (sy'n ymdrin â seiffro) ond nad yw mewn grym eto.

1.3 Fel rhan o'm dyletswydd dan y tair Deddf i adrodd yn flynyddol, yr wyf wedi paratoi adroddiad cyfun.

2. Trosolwg o'r flwyddyn

2.1 Mae Rhan III Deddf 1997 wedi bod mewn grym am dros bedair blynedd a Rhan II RIPA (a rhannau perthnasol RIP(S)A) am ddwy flynedd a hanner.

2.2 Mae nifer yr awdurdodiadau a roddwyd ar gyfer ymyrryd ag eiddo ac ar-wylio ymwthiol, sef 2511 a 475 yn eu tro, yn debyg i'r hyn a roddwyd y llynedd. Yr wyf yn fodlon bod awdurdodiadau o'r fath yn dal i gael eu cymryd o ddifrif gan yr awdurdodau dan sylw.

2.3 Mae nifer yr awdurdodiadau a roddwyd ar gyfer ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol (CHIS) sy'n dal i fod mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn, sef 4300 a 5000 yn eu tro, yn dangos gostyngiad dros y flwyddyn ddiwethaf, er mae'n bosibl bod y ffigwr ar gyfer ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd wedi cael ei effeithio gan newid yn y broses, fel yr wyf yn ei ddisgrifio'n ddiweddarach yn fy adroddiad. Fel yr adroddwyd y llynedd, mae defnyddio'r pwerau hyn yn parhau i beri anawsterau, er ei bod hi'n ymddangos bod y sefyllfa'n gwella.

2.4 Drwy'r rhaglen arolygiadau, mae'r Arolygwyr a'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn cael llwyddiant sylweddol, a hynny o safbwynt ansawdd a chynhyrchiant.

2.5 Dylid nodi bod cyflwyno Rhan III RIPA (sy'n ymdrin â seiffro) wedi cael ei ohirio unwaith eto.

3. Y Darpariaethau Statudol

3.1 Mae fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2000-2001 yn amlinellu dibenion a phrif ddarpariaethau Rhan III Deddf 1997, Rhan II RIPA a RIP(S)A sy'n berthnasol i oruchwylio ar-wylio cudd, ynghyd â chrynodeb o swyddogaethau statudol y Comisiynwyr. Gan fod gwefan Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio (www.surveillancecomissioners.gov.uk) hefyd yn eu dangos, nid wyf yn bwriadu eu hailadrodd.

4. Cyflawni fy nyletswyddau

Goruchwylio

4.1 Mae dyletswyddau Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio yn cael eu cyflawni'n bennaf drwy oruchwyliaeth y Comisiynwyr dros awdurdodiadau, arolygiadau gan Arolygwyr a Chomisiynwyr Cynorthwyol, ac ymweliadau dilynol gan Gomisiynwyr ag asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Comisiynwyr, y Comisiynwyr Cynorthwyol a'r Arolygwyr. Mae aelodau Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd â chyrff eraill ac yn mynychu cynadleddau gyda'r bwriad o gynorthwyo i wella dealltwriaeth ynghylch y ddeddfwriaeth a chydymffurfiaeth â hi.

4.2 Mae'r Ysgrifennydd a'r Prif Arolygydd Ar-wylio yn adrodd i mi yn wythnosol ar fusnes Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio ac yr wyf hefyd yn adolygu awdurdodiadau ar gyfer ymyrryd ag eiddo ac ar-wylio ymwthiol.

4.3 Cwrddais â chynrychiolwyr Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ym mis Mawrth 2003 er mwyn ystyried materion o ddiddordeb a phryder. Yn gynharach yn y flwyddyn, anerchais gynhadledd oedd yn dathlu ail flwyddyn gweithredu RIPA a rhoddais grynodeb o sefyllfa'r gweithgareddau cudd yr wyf yn eu goruchwylio.

4.4 Dros y flwyddyn, yr wyf i neu un o'r Comisiynwyr wedi ymweld â phob un ond 10 o'r lluoedd heddlu yn y Deyrnas Unedig. Cynhaliwyd ymweliadau ag wyth o'r 10 llu heddlu sy'n weddill yn union cyn neu ar ôl y cyfnod o 12 mis y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef. Bwriedir cynnal y ddau ymweliad arall yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae ymweliadau tebyg wedi cael eu cynnal â Chyllid y Wlad a'r BBC, tra bod y rheiny â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Gwasanaeth Carcharau wedi digwydd ychydig y tu allan i'r cyfnod.

4.5 Mae'r ymweliadau hyn yn galluogi Comisiynwyr i wneud cynnydd o safbwynt gweithredu argymhellion a wneir gan Arolygwyr. Maent hefyd yn gyfle i drafod materion perthnasol, sydd yn fy marn i, yn ddefnyddiol i'r Prif Swyddogion yn ogystal â'r Comisiynwyr.

4.6 Fel rheol, cynhelir tri chyfarfod o Gomisiynwyr, Comisiynwyr Cynorthwyol ac Arolygwyr mewn blwyddyn, er mai dim ond dau sydd wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn dan sylw. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynorthwyo'r Comisiynwyr i ddod i gytundeb ar faterion yn ymwneud â dehongli ac maent yn eu galluogi i adolygu materion sy'n codi o'r rhaglen arolygu sy'n cael ei chynnal gan Gomisiynwyr Cynorthwyol ac Arolygwyr. O bryd i'w gilydd, cyhoeddir cyfarwyddiadau'n ymwneud â phwyntiau dehongli ac arfer.

Apeliadau gan swyddogion awdurdodi

4.7 Ni chafwyd unrhyw apeliadau gan swyddogion awdurdodi yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Adrodd i'r Prif Weinidog a Gweinidogion yr Alban

4.8 Ni chefais unrhyw achos i adrodd i'r Prif Weinidog neu Weinidogion yr Alban ar unrhyw beth yn ymwneud ag unrhyw rai o'r materion yr wyf yn ymdrin â nhw.

5. Trefn Busnes Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio

5.1 Mae gwaith y Comisiynwyr, y Comisiynwyr Cynorthwyol a'r Arolygwyr yn parhau i gael ei drefnu fel yr amlinellwyd yn fy adroddiad diwethaf.

5.2 Rwy'n ddiolchgar iddynt i gyd, ac i'r ysgrifenyddiaeth, am eu cymorth. Unwaith eto, mae'n rhaid i mi dynnu sylw arbennig at gyflawniad eithriadol yr Arolygwyr a'r Comisiynwyr Cynorthwyol a mynegi diolch arbennig amdano. Maent wedi cynnal nifer sylweddol o arolygiadau. Ond mae'n fwy na rhifau yn unig. Maent wedi gwneud eu gwaith yn drwyadl, gan gynnig cymorth ar bob achlysur, ac rwy'n siŵr bod hynny'n cael ei werthfawrogi gan y sawl a gafodd eu harolygu.

5.3 Cafodd gwaith yr ysgrifenyddiaeth ei adolygu gan yr Ysgrifennydd yn ystod y flwyddyn a gwnaethpwyd newidiadau bach i nifer y staff fel y cytunwyd â'r Swyddfa Gartref, gyda'r nod o wella effeithiolrwydd. Nid oedd y newidiadau eto wedi dod i rym ar ddiwedd flwyddyn. O ganlyniad, mae'r staff presennol wedi gorfod gweithio dan bwysau sylweddol ar brydiau, ac maent wedi ymdopi â hyn yn gampus.

6. Ymyrryd ag eiddo ac ar-wylio ymwthiol

6.1 Mae pwerau a dyletswyddau'r Comisiynwyr wrth archwilio a phenderfynu a ddylid cymeradwyo awdurdodiadau dan Ddeddf 1997 ac o dan RIPA neu RIP(S)A, yn cael eu hegluro yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2000-2001. Eto, maent ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio.

Ystadegau

6.2 Mae ystadegau ar gyfer awdurdodiadau i ymyrryd ag eiddo ac ar-wylio ymwthiol ar gyfer y llynedd a'r blynyddoedd blaenorol yn cael eu dangos yn y tablau yn Atodiadau A a B. Fel o'r blaen, nid wyf wedi nodi nifer yr awdurdodiadau a roddwyd gan bob asiantaeth ar wahân oherwydd gallai hyn roi argraff gamarweiniol o'u harferion gweithredu. Troseddau'n ymwneud â chyffuriau yw prif darged yr awdurdodiadau o hyd.

Ymyrryd ag eiddo

6.3 Rhoddwyd 2511 o awdurdodiadau i ymyrryd ag eiddo yn 2002-2003, heb gyfrif rhai a adnewyddwyd, sy'n dangos ychydig iawn o newid oddi ar y flwyddyn flaenorol (2519).

6.4 Nid wyf, fel rheol, yn nodi awdurdodiadau sy'n cael eu hadnewyddu gan eu bod yn ymwneud â gweithrediadau parhaus ac fe allent ddrysu'r ffigyrau. Fodd bynnag, mae'n werth adrodd, fel arwydd o'r cynnydd yn y llwyth gwaith sy'n cael ei gyflawni gan Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio, bod 543 yn 2002-2003 o'i gymharu â 437 yn y flwyddyn flaenorol.

6.5 Cafwyd 244 o achosion lle defnyddiwyd darpariaethau brys sy'n cael eu caniatáu yn y ddeddfwriaeth. Hefyd, cafwyd dau achos lle rhoddwyd awdurdodiadau yn absenoldeb y Prif Swyddog. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd y ffigyrau hyn yn 280 ac 14. Mae'r ffigyrau hyn wedi gostwng yn bennaf yn sgîl gwell gwybodaeth ac effeithlonrwydd yn ogystal â'r ffaith bod y gofynion awdurdodi bellach yn fwy cyfarwydd i'r rheiny sy'n ymwneud â nhw.

6.6 Cafodd tri awdurdodiad eu diddymu. Roedd un yn ymwneud ag awdurdodi ymyrryd y tu allan i ardal y llu heddlu, ac nid yw'r Ddeddf yn caniatáu hyn. Methwyd profi bod angen un arall ac nid oedd y trydydd yn rhoi digon o fanylion i argyhoeddi'r Comisiynydd ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Ar-wylio Ymwthiol

6.7 Cafwyd 475 o awdurdodiadau ar-wylio ymwthiol yn ystod 2002-2003, sy'n dangos peth gostyngiad o'i gymharu â 493 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd 80 o adnewyddiadau o'u cymharu â 102 yn y flwyddyn flaenorol.

6.8 Cafwyd 28 o achosion lle defnyddiwyd darpariaethau brys. Ni lofnodwyd unrhyw awdurdodiadau yn absenoldeb y Prif Swyddog. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd y ffigyrau yn 35 a 3.

6.9 Cafodd un awdurdodiad ei ddiddymu am nad oedd y Comisiynydd yn fodlon ei fod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer trosedd difrifol.

7. Delio ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith

7.1 Yn ystod y flwyddyn, cynghorais Wasanaeth Carcharau Cymru a Lloegr nad oedd angen dilyn ei arfer o gael awdurdodiadau ar-wylio ymwthiol drwy'r Ysgrifennydd Gwladol mewn achosion lle mae gwystlon yn cael eu dal. Mae unrhyw un sy'n dal rhywun yn wystl yn cyflawni trosedd ac nid oes ganddo unrhyw hawl i breifatrwydd. Mae'n annhebygol y byddai unrhyw un sy'n cael ei ddal yn wystl yn codi pryderon ynghylch ymyrryd â phreifatrwydd. Datganodd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Senedd ar 12 Rhagfyr 2002 y byddai'n derbyn y cyngor hwn ac y byddai gweithdrefnau'r Gwasanaeth Carcharau yn cael eu diwygio'n unol â hyn.

7.2 Mewn ymateb i gais gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, mynegais y farn, a gyhoeddwyd yn y wasg ar ôl hynny, na ddylai'r heddlu oedi, pan fo angen, i ddefnyddio'u pwerau dan RIPA wrth ymchwilio i achosion o ryw anghyfreithlon â merched dan 13 oed. Ond mae'n anodd dychmygu amgylchiadau lle gallai plentyn gael ei adael mewn perygl tra bod gwaith ar-wylio'n mynd yn ei flaen.

7.3 Bu un o'r Comisiynwyr, yr Arglwydd Bonomy, gyda chymorth y Prif Arolygydd Ar-wylio a'r Ysgrifennydd, yn cadeirio seminar a drefnwyd gan luoedd heddlu'r Alban i adolygu materion yn ymwneud â Deddf yr Heddlu a RIP(S)A.

7.4 Yn dilyn y digwyddiad hwn, mae lluoedd heddlu'r Alban ac Asiantaeth Gorfodi Cyffuriau yr Alban wedi cytuno ar becyn hyfforddiant ymwybyddiaeth cyffredinol a fydd yn cael ei ddosbarthu i'r holl luoedd i'w gyflwyno i swyddogion o gwnstabl i Brif Arolygydd gan adrannau hyfforddi'r holl luoedd, a dull gweithredu tebyg, sy'n rhannol ryngweithiol, i godi ymwybyddiaeth Uwcharolygwyr nad ydynt yn arbenigo. Maent hefyd wedi cytuno ar fewnbwn pellach, sydd â chanolbwynt mwy pendant, ar gyfer Uwcharolygwyr sydd newydd gael eu dyrchafu sy'n mynychu Coleg Heddlu'r Alban, a hyfforddiant mwy trylwyr ar gyfer swyddogion awdurdodi dan y ddeddfwriaeth, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â rheoli ffynonellau cudd-ymchwil dynol.

7.5 Mae Coleg Heddlu'r Alban wedi cyflwyno cwrs deuddydd i ddiwallu anghenion Gwasanaeth Heddlu'r Alban. Trefnwyd yr un cyntaf ar gyfer canol Mehefin a gwahoddwyd un o Arolygwyr Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio i gyfrannu iddo. Yn ogystal, nododd lluoedd yr Alban yr angen am hyfforddiant pellach ar rôl y Prif Swyddog, a fydd yn cael ei gyflwyno gan Goleg Heddlu'r Alban. Dylid canmol Gwasanaeth Heddlu'r Alban am y mentrau hyn, ac yr wyf yn falch bod fy Swyddfa wedi gallu bod o gymorth.

7.6 Yr wyf wedi cytuno y dylai'r Ysgrifennydd, ynghyd â'r Prif Arolygydd Ar-wylio, gyfarfod yn rheolaidd ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith, fel modd o drafod a rhannu arfer da o safbwynt ceisiadau ac awdurdodiadau ar gyfer ymyrryd ag eiddo ac ar-wylio ymwthiol a defnyddio pwerau statudol eraill. Mae hyn yn cynnig ffordd gyfleus i asiantaethau gorfodi'r gyfraith ofyn i'r Comisiynwyr egluro sut y maent yn debygol o ddehongli darpariaethau statudol penodol. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd tri chyfarfod o'r fath wedi cael eu cynnal.

7.7 Mae'r Prif Arolygydd Ar-wylio, yn ogystal â'r Arolygwyr, wedi parhau i fynychu digwyddiadau hyfforddi'r heddlu a'u cefnogi pan fo amser yn caniatáu.

8. Ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol

8.1 Mae'r Gwasanaeth Cudd-ymchwil Troseddol Cenedlaethol, y Corfflu Troseddau Cenedlaethol, Asiantaeth Gorfodi Cyffuriau yr Alban, Tollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi a lluoedd heddlu'r DU wedi darparu ystadegau ar gyfer eu defnydd o ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol. Rhoddwyd oddeutu 26,400 o awdurdodiadau ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd yn 2002-2003, ac roedd 4,300 o'r rhain yn dal i fod mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu ag oddeutu 28,000 (ffigwr wedi'i gywiro) a 4,800 yn eu tro yn ystod y flwyddyn flaenorol.

8.2 Gellir egluro'r gostyngiad sylweddol yn nifer yr awdurdodiadau ar gyfer ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd yn rhannol gan newid yn arferion un awdurdod sydd bellach yn dibynnu ar awdurdodiadau sy'n ymwneud â gweithrediadau yn hytrach na gwrthrychau gweithrediadau.

8.3 Cafodd oddeutu 5900 o ffynonellau cudd-ymchwil dynol eu recriwtio yn ystod yr un cyfnod; peidiwyd â defnyddio 5400; ac roedd oddeutu 5000 yn weithredol ar ddiwedd y flwyddyn. Y ffigyrau ar gyfer y flwyddyn flaenorol oedd 5400, 4900 a 5400 yn eu tro.

8.4 Mae materion yn ymwneud ag ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol yn cael eu trafod â'r asiantaethau hyn yn y cyfarfodydd â'r Ysgrifennydd a'r Prif Arolygydd Ar-wylio, y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol, ac mae problemau'n cael eu cyflwyno i'r Comisiynwyr er mwyn cael eu cyngor.

8.5 Mae ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd yn peri anawsterau i'r heddlu gan nad oes unrhyw ganllawiau cyffredinol ynglŷn â phryd y mae angen awdurdodiadau. Mae un o'r anawsterau yn ymwneud ag ardaloedd sy'n nodedig am dorcyfraith (*crime hotspots*). Mae Adran 26(2) RIPA (adran 1(2) RIP(S)A) yn ymwneud â chael gwybodaeth am berson, p'un a yw'r person hwnnw wedi cael ei

adnabod yn benodol at ddibenion yr ymchwiliad ai peidio. Nid yw'n gyfyngedig i *fwriad* i gael gwybodaeth breifat. Mae hyn yn galw am arfer synnwyr cyffredin. Mae angen awdurdodiad ar gyfer ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd pa bryd bynnag y mae posibilrwydd gwirioneddol bod y modd y cynigir cyflawni'r ar-wylio yn debygol o arwain at gael gwybodaeth breifat am berson, p'un a yw'r person hwnnw yn wrthrych y gweithrediadau neu'n dod yn wrthrych y gweithrediadau ai peidio.

9. Arolygiadau

9.1 Cafwyd 276 o arolygiadau eleni. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol iawn â'r 158 yn ystod y flwyddyn flaenorol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth (er bod rhaglen y flwyddyn honno wedi dechrau ym mis Mai). Y nod bob amser yw sicrhau bod y cyfrifoldebau y mae'r ddeddfwriaeth yn eu cyflwyno yn cael eu cydnabod a'u derbyn yn iawn ar lefel uwch reoli, ac mae sefydlu prosesau adolygu mewnol a hyfforddiant sydd â ffocws pendant yn gymorth yn hynny o beth.

.

9.2 Asiantaethau gorfodi'r gyfraith

9.2.1 Gellir diffinio asiantaethau gorfodi'r gyfraith fel y cyrff hynny sydd â'r awdurdod i ddefnyddio ar-wylio ymwthiol. Cafwyd 62 o arolygiadau yn ystod y flwyddyn: 46 o luoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y Corfflu Troseddau Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Cudd-ymchwil Troseddol Cenedlaethol; naw o luoedd yr Alban, yn ogystal â Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, lluoedd Ei Mawrhydi yng Ngogledd Iwerddon, Tollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi, Heddlu Trafnidiaeth Prydain a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

9.2.2 Er nad yw cyfansoddiad Asiantaeth Gorfodi Cyffuriau'r Alban yn ei alluogi i awdurdodi gwaith ar-wylio ymwthiol, gellir ei gosod yn yr un grŵp â'r cyrff hyn gan fod ganddi gysylltiad agos â gweithrediadau o'r fath.

9.2.3 Fel rheol, mae arolygiadau asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn cael eu cynnal gan arolygwyr unigol. Fel rheol, maent yn cymryd chwe diwrnod i'w cwblhau, ond caniateir llawer mwy o amser ar gyfer y lluoedd mwy o faint. Defnyddiwyd pump o arolygwyr i arolygu Heddlu Llundain, tri yr un ar gyfer y Corfflu Troseddau Cenedlaethol a Thollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi, a dau ar gyfer Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon.

9.2.4 Mae arolygwyr yn parhau i ganolbwyntio ar bolisïau, gweithdrefnau, hyfforddiant a defnyddio ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol. Maent hefyd yn edrych ar geisiadau i ymyrryd ag eiddo ac ar-wylio ymwthiol, er bod Comisiynwyr yn archwilio ceisiadau o'r fath yn uniongyrchol, adeg eu cyflwyno.

9.2.5 Gwelwyd gwelliant sylweddol wrth i brofiad o'r ddeddfwriaeth gynyddu ac wrth i'r cyrff hyn ddysgu o'r arolygiadau. Mae cyhoeddi Codau Ymarfer hir ddisgwyliedig y Swyddfa Gartref yn Awst 2002 a Gweithrediaeth yr Alban ym Mawrth 2003 hefyd wedi bod o gymorth iddynt.

9.2.6 O bryd i'w gilydd, mae fy Swyddfa yn diweddaru'r enghreifftiau o arfer da ac arfer gwael yr ydym yn eu dosbarthu i'r holl asiantaethau gorfodi'r gyfraith, fel y gallant barhau i ddysgu o brofiadau'i gilydd. Mae arferion gwael y mae ein Harolygwyr yn dod ar eu traws yn cynnwys dogfennau polisi annigonol neu ddiffyg dogfennau polisi, methiant i adolygu neu ddileu awdurdodiadau, ceisiadau ac awdurdodiadau annigonol, awdurdodiadau sy'n ymestyn y tu hwnt i'w terfynau statudol, diffyg atebolrwydd ar gyfer offer technegol, hyfforddiant annigonol, diffyg gwybodaeth am y ddeddfwriaeth, a dim cofnod canolog o awdurdodiadau.

9.2.7 Mae'r rhan fwyaf o'r arferion da i'r gwrthwyneb i'r rhai gwael. Maent yn cynnwys canllawiau gwych a manwl i'r lluoedd, swyddfeydd canolog o'r radd flaenaf sy'n goruchwylio ac yn rheoli ansawdd, adolygiadau rhagorol o arfer y llu, gwirio mewnol rheolaidd a hap-samplo, mabwysiadu model arfer gorau Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer rheoli ffynonellau cudd-ymchwil dynol, asesiadau risg manwl, a hyfforddiant pwrpasol, llawn dychymyg. Bellach, mae arfer da yn llawer mwy cyffredin nag arfer gwael, er hynny mae rhestr wirio o arferion gwael yn parhau i fod yn ddefnyddiol. Mewn adroddiadau yn y dyfodol, yr wyf yn bwriadu enwi lluoedd

sy'n nodedig am eu harferion da; ac efallai y bydd yn rhaid enwi unrhyw rai sy'n dal i fod yn nodedig am eu harferion gwael.

9.2.8 Er mai fy ngwaith i yw argymell i brif swyddogion yr hyn y dylid ei wneud i gyflawni gwelliant angenrheidiol, nhw sy'n penderfynu sut y dylid gwneud hyn. Maent dan bwysau, yn enwedig o safbwynt neilltuo amser ac adnoddau ar gyfer hyfforddiant a systemau TG. Fodd bynnag, maent yn ymateb i'r cyngor ac yn barod i weithredu bron bob amser. Yr wyf yn ddiolchgar am hynny.

9.2.9 Yn ystod eu hymweliadau ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn dilyn arolygiadau, mae Comisiynwyr wedi gweld bod nifer o bynciau'n ailgodi'n aml: hyfforddiant, rheoli ffynonellau cudd-ymchwil dynol, dosbarthu cysylltiadau cyfrinachol, goruchwylio mewnol gan swyddfa ganolog, ansawdd a digonolrwydd ceisiadau ac awdurdodiadau ar gyfer ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd, a mannau sy'n nodedig am dor-cyfraith, (a'r mater o wybodaeth breifat sy'n gysylltiedig), yr wyf eisoes wedi cyfeirio atynt. Roedd y materion a drafodwyd yn gyffredinol yn cynnwys diffyg cydlynu rhaglenni hyfforddiant yng Nghymru a Lloegr, y defnydd cyfyngedig o weithgareddau cudd yn yr Alban, a digonolrwydd PIMS. Ond yr wyf yn nodi y bydd hyfforddiant ar Ddeddf yr Heddlu a RIPA yn cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant a roddir i swyddogion yr heddlu sydd ar brawf yng Nghymru a Lloegr o hydref 2003 ymlaen.

9.2.10 Mae'n amlwg yn bwysig y dylai Cyfarwyddwr Asiantaeth Gorfodi Cyffuriau'r Alban, sy'n cynnal cryn dipyn o'r gweithgareddau cudd yn yr Alban, gael yr hawl i awdurdodi gweithrediadau'r asiantaeth. Er nad yw hyn, o bosibl, yn destun trafod o bwys yn y byd gwleidyddol, ni ddylai olygu bod y ddeddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol yn cael ei gwrthod.

9.3 Adrannau'r Llywodraeth a chyrff cysylltiedig

9.3.1 Cynhaliwyd un ar ddeg o arolygiadau o Adrannau'r Llywodraeth a chyrff cysylltiedig:
Adran Iechyd (Gwasanaeth Gwrthdwyll)
Adran Drafnidiaeth (Transec)
Adran Gwaith a Phensiynau (dau arolwg)
Asiantaeth yr Amgylchedd
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Y Swyddfa Gartref (Y Gwasanaeth Carcharau)
Cyllid y Wlad
Gweithrediaeth yr Alban (Asiantaeth *Accountant in Bankruptcy* a Gwasanaeth Carcharau yr Alban – dau arolwg)

9.3.2 Maent yn cynrychioli cymysgedd o awdurdodau. Mae rhai'n gwneud cryn ddefnydd o bwerau ar-wylio cudd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol. Mae rhai meysydd yn ardderchog. Mae cynnydd eto i'w wneud mewn meysydd eraill. Mewn achosion eraill, mae arolygiadau wedi tynnu sylw awdurdodau penodol at arferion yr oeddent hwy yn meddwl, ar gam, nad oeddent yn dod o dan y ddeddfwriaeth. Ar y llaw arall, rhaid amau a ddylai'r rheiny sy'n gwneud bach iawn o ddefnydd o weithgareddau cudd, neu ddim defnydd o gwbl, barhau i allu eu hawdurdodi. Yn gyffredinol, yr wyf yn fodlon â'r ymatebion i'r argymhellion a ddaeth o'r arolygiadau, ac yr wyf yn credu y bydd yr hyn y mae angen ei wneud yn cael ei wneud.

9.4 Awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr

9.4.1 Yn fy Adroddiad Blynyddol diwethaf, crybwyllais fy mod wedi tynnu sylw Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog at rai pryderon am Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chynghorau plwyf. Pan fônt yn dod ar draws Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, mae Comisiynwyr Cynorthwyol ac Arolygwyr yn parhau i dynnu sylw at y ffaith nad oes gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig unrhyw bwerau dan RIPA, er y gallant fod yn weithredwyr, os yw awdurdodau lleol yn cymryd cyfrifoldeb am yr awdurdodiadau.

9.4.2 Argymhellais y dylid dileu cynghorau plwyf o Atodlen 1 RIPA. Mae ateb a roddwyd yn y Cofnod Swyddogol ar 11 Chwefror 2003 yn dangos bod y Llywodraeth yn bwriadu gwneud hyn. Yr wyf

yn deall mai'r nod yw gwneud hyn drwy Orchymyn sy'n cael ei gyflwyno gerbron y Senedd yn ystod haf 2003.

9.4.3 Yn ystod rhaglen y flwyddyn, arolygwyd cydbwyllgor o bump o gynghorau dosbarth sy'n cyflawni swyddogaethau safonau masnach a swyddogaethau eraill ar ran y cynghorau dosbarth. Roedd hyn yn cynnwys awdurdodi ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd. Roedd y cydbwyllgor yn credu bod ganddo'r hawl i wneud hynny dan Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n rhagamodi y gall un awdurdod lleol gyflawni swyddogaethau un arall.

9.4.4 Y canlyniad annerbyniol i hyn yw y gallai ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd (gyda'i gyfrifoldebau cysylltiedig) gael ei gynnal ar ran cyngor arbennig heb iddo gael ei awdurdodi gan y cyngor hwnnw neu ei gynnal gan swyddogion y cyngor hwnnw. Mae'r Comisiynwyr yn adolygu'r arfer hwn.

9.4.5 Rhoddodd y Swyddfa Gartref gyfres ddiwygiedig o ffurflenni RIPA ar ei gwefan yn ystod y flwyddyn er hwylustod i awdurdodau lleol ac eraill. Lle caiff y rhain eu mabwysiadu, maent yn sicrhau tipyn gwell sylw i ofynion yn ymwneud â phrofi rheidrwydd a'r angen i ystyried asesu risg wrth ddefnyddio ffynonellau cudd-ymchwil dynol. Fodd bynnag, mae cymesuroldeb yn parhau i gael ei gamddeall, er bod y Codau Ymarfer yn ymdrin â'r mater. Gelwir yn aml ar y Comisiynwyr Cynorthwyol am eu cyngor ar y mater hwn.

9.4.6 Er nad yw'n ofynnol i Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio roi cyfarwyddyd i awdurdodau cyhoeddus o safbwynt defnyddio eu pwerau a'u cyfrifoldebau dan RIPA, mae Comisiynwyr Cynorthwyol wedi ceisio cynorthwyo drwy annerch seminarau pan oeddent yn gallu gwneud hynny.

9.4.7 Yr wyf hefyd wedi cytuno y dylai Ysgrifennydd Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio sefydlu grŵp ar y cyd ag awdurdodau lleol, sy'n debyg i'r un a sefydlwyd ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith, er mwyn ystyried materion yn ymwneud ag arfer a dehongli.

9.4.8 Lansiwyd gwefan Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio ym mis Mehefin 2002. Bydd y safle'n cael ei ddatblygu er mwyn cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus.

9.4.9 Mae cant wyth deg naw o awdurdodau lleol, gan gynnwys Awdurdod Llundain Fwyaf a'r cydbwyllgor y cyfeiriwyd ato'n gynharach, wedi cael eu harolygu yng Nghymru a Lloegr yn 2002-2003, sydd bron i bedair gwaith yn fwy na'r hyn a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol (47). Comisiynwyr Cynorthwyol fu'n ymdrin â bron i 75% o'r arolygiadau hyn gyda'r arolygwyr yn ymdrin â'r gweddill.

Awdurdodau Metropolitan ac Unedol

9.4.10 Mae cant ac un o Awdurdodau Metropolitan ac Unedol wedi cael eu harolygu, o'i gymharu ag wyth y llynedd. Mae hyn yn ffurfio cyfanswm o 79% o Fwrdeistrefi Llundain, 86% o awdurdodau yng Nghymru a bron i 80% o'r gweddill.

9.4.11 Arolygwyd dau ddeg tri o Fwrdeistrefi Llundain ynghyd ag Awdurdod Llundain Fwyaf. Yn oddeutu hanner yr arolygiadau, barnwyd bod y polisïau, y gweithdrefnau a'r hyfforddiant yn amrywio o ardderchog i foddhaol. Roedd y defnydd o ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd yn amrywio o dda iawn i foddhaol yn y rhan fwyaf o achosion. Prin iawn oedd yr achosion o awdurdodi ffynonellau cudd-ymchwil dynol. Pan gawsant eu hawdurdodi, fe'u defnyddiwyd yn foddhaol.

9.4.12 Yn y 40 o awdurdodau unedol a arolygwyd yn Lloegr, roedd llawer o waith i'w wneud ar bolisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant, er hynny barnwyd bod yr awdurdodiadau ar gyfer ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a gafodd eu gwirio yn amrywio o dda iawn i foddhaol. Roedd dros hanner heb awdurdodi ffynonellau cudd-ymchwil dynol.

9.4.13 Roedd yr 17 awdurdod a arolygwyd yng Nghymru yn dangos brwdfrydedd a diddordeb, yn enwedig ymysg yr adrannau arbenigol, a gwelwyd rhai enghreifftiau o ddatblygu polisïau yn ofalus ac yn gyfrifol. Er hynny, roedd yna ddiffyg gafael canolog mewn sawl awdurdod; ac nid oedd un awdurdod wedi mynd i'r afael â'i gyfrifoldebau RIPA hyd nes ei fod yn wynebu arolygiad. Yn gyffredinol, roedd y polisïau, y gweithdrefnau a'r hyfforddiant wedi cael mwy o feirniadaeth na chanmoliaeth. Wedi dweud hynny, roedd yr awdurdodiadau ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a gafodd eu gwirio yn foddhaol gan amlaf, er bod angen rhoi sylw i rai manylion. Ychydig iawn o awdurdodiadau a roddwyd ar gyfer ffynonellau cudd-ymchwil dynol.

9.4.14 Yn y 21 o awdurdodau metropolitan eraill a arolygwyd, barnwyd bod mwyafrif y dogfennau polisi, y gweithdrefnau a'r trefniadau hyfforddi yn foddhaol o leiaf. Yn yr un modd, roedd awdurdodiadau ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd yn foddhaol ar y cyfan er bod angen rhoi sylw i rai manylion. Eto, ychydig iawn o awdurdodiadau a roddwyd ar gyfer ffynonellau cudd-ymchwil dynol.

Cynghorau Sir

9.4.15 Mae dau ddeg tri o Gynghorau Sir wedi cael eu harolygu o'i gymharu â chwech y llynedd. Bellach, mae cyfanswm o 85% wedi cael eu harolygu.

9.4.16 Yn gyffredinol, roedd gan dros hanner y Cynghorau bolisïau oedd yn amrywio o foddhaol i ardderchog, ac roedd gan yr un gyfran drefniadau hyfforddi a gafodd eu barnu yn yr un modd. Roedd gan oddeutu tri chwarter ohonynt weithdrefnau atodol oedd yn amrywio o foddhaol i ardderchog. Er bod hyn yn galonogol, roedd angen gwneud gwelliannau mawr i nifer sylweddol. Wrth archwilio'r defnydd o ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd, barnwyd bod y ceisiadau a'r awdurdodiadau yn amrywio o foddhaol i ardderchog yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd hyn hefyd yn wir o safbwynt awdurdodi ffynonellau cudd-ymchwil dynol, er nad oedd tua hanner y Cynghorau wedi rhoi awdurdodiadau o'r fath.

Cynghorau Dosbarth

9.4.17 Mae chwe deg tri o Gynghorau Dosbarth wedi cael eu harolygu, o'i gymharu â 31 y llynedd, sy'n gwneud cyfanswm o 40%. Fodd bynnag, yr wyf wedi rhoi llai o flaenoriaeth iddynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn dal i fyny ag arolygu awdurdodau eraill. Yn aml, prin yw'r defnydd a wneir o weithgareddau cudd ac mae safon y perfformiad yn isel. Ond weithiau, mae arweiniad prif weithredwr neu uwch gyfreithiwr yn esgor ar well canlyniadau, ac yn aml mae rhybudd bod arolygiadau ar fin digwydd yn sbardun i sefydlu'r polisïau, y gweithdrefnau a'r hyfforddiant gofynnol.

9.5 Awdurdodau lleol yn yr Alban

9.5.1 Cafodd mwyafrif yr awdurdodau yn yr Alban eu harolygu y llynedd, felly dim ond pump a gafodd eu harolygu eleni, sy'n gwneud cyfanswm o 84%. Roedd nifer wedi bod yn araf o safbwynt ystyried gofynion RIP(S)A, ac nid oedd polisïau wedi cael eu datblygu eto. Roedd y defnydd o ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol yn isel iawn.

9.6 Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a Lloegr

9.6.1 Yn fy adroddiad diwethaf, argymhellais y dylai'r holl waith ar-wylio cudd (ac nid yn unig yr hyn sy'n ymwneud â thwyll a llygredigaeth) gael ei gynnal gan Wasanaeth Gwrthdwyll y GIG ar ran yr holl gyrff GIG yng Nghymru a Lloegr ac y dylid dileu'r holl gyrff GIG o Ran 2 Atodlen 1 RIPA.

9.6.2 Yn y cyfamser, penderfynais y dylid peidio ag arolygu cyrff GIG, felly dim ond un a gafodd ei arolygu yn 2002-2003.

9.6.3 O Ionawr 2003 ymlaen, mae'r Gwasanaeth Gwrthdwyll wedi cael ei sefydlu fel awdurdod iechyd arbennig o'r enw y Gwasanaeth Gwrthdwyll a Rheoli Diogelwch. Mae wedi cael cyfrifoldeb dros bolisi gweithredol a chyfrifoldeb strategol dros fynd i'r afael â thwyll a llygredigaeth o fewn y GIG, a'r Adran Iechyd a'i hasiantaethau. Mae hefyd yn gyfrifol am reoli diogelwch o fewn y

GIG. Mae'r trefniant yn berthnasol i Loegr yn unig, ond yr wyf yn deall bod y Gwasanaeth Gwrthdwyll a Rheoli Diogelwch yn gyfrifol am fynd i'r afael â thwyll a llygredigaeth yng Nghymru dan gytundeb asiantaeth â'r Cynulliad Cenedlaethol.

9.6.4 Yr wyf yn credu bod swyddogion yn dal i adolygu fy argymhelliad y dylai'r Gwasanaeth Gwrthdwyll (bellach y Gwasanaeth Gwrthdwyll a Rheoli Diogelwch) ysgwyddo'r holl gyfrifoldeb am ddefnyddio ar-wylio cudd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol ac y dylid dileu holl gyrff eraill y GIG o Atodlen 1 y Ddeddf. Byddaf yn penderfynu beth y dylid ei wneud ynghylch arolygiadau yn dilyn y penderfyniadau a wneir gan y Gweinidogion.

9.6.5 Yn y cyfamser, yr wyf yn sylwi bod awdurdodau iechyd wedi dod unai yn awdurdodau iechyd strategol neu'n ymddiriedolaethau gofal cynradd o ganlyniad i newidiadau eraill i'r GIG. Nid oes gan y cyrff hyn bwerau RIPA. Felly, mae 99 yn llai o awdurdodau dan fy ngoruchwyliaeth, gyda'r posibilrwydd y bydd y nifer yn gostwng yn sylweddol eto (rhyw 350 o ymddiriedolaethau iechyd).

9.7 Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn yr Alban

9.7.1 Arolygwyd pum corff GIG yn yr Alban yn 2002-2003, roedd un o'r rhain yn ail ymweliad.

9.7.2 Y llynedd, gofynnais a fyddai modd trefnu ymchwiliadau a allai ddibynnu ar bwerau RIP(S)A yn wahanol fel y gellir dileu rhai cyrff o'r Ddeddf, fel y digwyddodd yng Nghymru a Lloegr. Bellach, cafwyd cadarnhad bod Gweinidogion yn bwriadu dileu ymddiriedolaethau GIG, Byrddau Iechyd a Byrddau Iechyd Arbennig o RIP(S)A pan fo amser Seneddol yn caniatáu. Yn y cyfamser, bydd canllawiau gweinyddol yn cael eu dosbarthu i holl gyrff GIG yr Alban yn eu cynghori ynghylch y trefniadau newydd. Bydd hyn yn golygu gostyngiad o dros 40 yn nifer yr awdurdodau dan fy ngoruchwyliaeth.

9.7.3 Bydd Gwasanaethau Gwrthdwyll GIG yr Alban, sydd wedi cymryd lle Uned Ymchwilio Twyll yr Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin ar gyfer Gwasanaeth Iechyd yr Alban, yn awdurdodi ac yn cynnal gwaith ar-wylio yn ôl cyfarwyddyd a ffynonellau cudd-ymchwil dynol ar ran cyrff eraill pan fo amheuaeth o weithgareddau troseddol yn gysylltiedig â thwyll neu anghysondebau eraill. Bydd troseddau eraill yn cael eu cyfeirio at yr heddlu.

9.7.4 Lle bo angen atal anhrefn neu warchod iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, bydd ymchwiliadau yn cael eu cyfeirio at yr heddlu neu gyrff eraill megis cynghorau lleol (adrannau iechyd yr amgylchedd yn benodol) neu Asiantaeth Amddiffyn yr Amgylchedd yr Alban. Mae ganddynt eisoes yr hawl i ddefnyddio pwerau RIP(S)A. Roedd gorchymyn i ddod â hyn i rym yn cael ei baratoi yn gynnar yn Ebrill 2003.

9.8 Cyrff cyhoeddus eraill

9.8.1 Mae'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig a'r Post Brenhinol wedi cael eu harolygu hefyd.

9.9 Blaenoriaethau

9.9.1 Yn fy adroddiad ar gyfer y llynedd, crybwyllais yr angen i bennu blaenoriaethau ar gyfer arolygu'r awdurdodau yn ogystal ag amlder yr arolygiadau. Ar ôl cael blwyddyn arall o dystiolaeth o'r arolygiadau, yr wyf yn gweithio'n unol â'r hyn a amlinellir yn Atodiad C, er mae'n bosibl y bydd rhai addasiadau. Byddaf yn diwygio'r blaenoriaethau hyn yn ôl yr angen.

9.9.2 Yr wyf yn disgwyl y bydd arolygiadau cychwynnol yr awdurdodau lleol yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Ar gyfer y dyfodol, byddaf yn ystyried y ffordd orau i flaenoriaethu'r arolygiadau fel bod pob math o awdurdod yn cael ei arolygu mor aml ag y bo'n briodol.

10. Y flwyddyn sydd i ddod

10.1 Disgwylir ychwanegu awdurdodau newydd i Atodlen 1 RIPA a chyflwyno seiffro lle mae gennyf gyfrifoldebau sy'n ymwneud â dadlennu allweddi.

10.2 Yr wyf yn disgwyl gwelliant parhaus o safbwynt deall y ddeddfwriaeth a chydymffurfio â hi gan bawb sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cudd.

10.3 Erbyn diwedd 2003, yr wyf hefyd yn disgwyl y bydd y 441 o awdurdodau lleol wedi cael eu harolygu o leiaf unwaith oddi ar i RIPA ddod i rym.

10.4 Yr wyf yn edrych ymlaen at ddatblygu gwefan Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio ymhellach fel modd o gynorthwyo awdurdodau cyhoeddus i ddeall yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

10.5 Yr wyf yn credu y bydd y gostyngiad disgwyliedig, yr wyf eisoes wedi cyfeirio ato, yn nifer yr awdurdodau cyhoeddus sy'n dod dan RIPA yn ei gwneud hi'n bosibl i arolygu'r nifer sylweddol sy'n weddill yn ddigon aml i allu cynnal safon resymol o safbwynt adolygu heb gynyddu nifer y Comisiynwyr Cynorthwyol neu Arolygwyr ar hyn o bryd.

ATODIAD A

AWDURDODIADAU A RODDWYD DAN RAN III DEDDF YR HEDDLU 1997 ODDI AR EI GWEITHREDU

	1999 –2000[1]			2000-2001[1]			2001-2002			2002-2003		
	Cymru, Lloegr a G.I	Yr Alban	Cyfanswm	Cymru, Lloegr a G.I	Yr Alban	Cyfanswm	Cymru, Lloegr a G.I	Yr Alban	Cyfanswm	Cymru, Lloegr a G.I	Yr Alban	Cyfanswm
Cyfanswm yr awdurdodiadau (heb gynnwys rhai a adnewyddwyd)	2,401	58	2,459	2,509	58	2,567	2,437	82	2,519	2,424	87	2,511

CYMERADWYAETH YMLAEN LLAW[2]

	1999-2000[1]			2000-2001[1]			2001-2002			2002-2003		
	Cymru, Lloegr a G.I	Yr Alban	Cyfanswm	Cymru, Lloegr a G.I	Yr Alban	Cyfanswm	Cymru, Lloegr a G.I	Yr Alban	Cyfanswm	Cymru, Lloegr a G.I	Yr Alban	Cyfanswm
Nifer yr achosion y mae angen eu cymeradwyo	311	12	323	376	8	375	299	7	306	281	18	299
Achosion y mae angen eu cymeradwyo ymlaen llaw yn ôl categori												
Annedd	198	7	205	238	7	245	204	3	207	190	13	203
Swyddfa	60	1	61	45	-	45	37	2	39	38	2	40
Ystafell mewn gwesty	50	4	54	77	1	78	56	2	58	49	3	52
Materion sy'n gysylltiedig â braint gyfreithiol	1	-	1	4	-	4	1	-	1	2	-	2
Deunydd newyddiadurol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Gwybodaeth bersonol gyfrinachol	4	-	4	3	-	3	1	-	1	2	-	2

[1] Mae rhai mân gywiriadau wedi cael eu gwneud i rai o'r ffigyrau a gofnodwyd yn flaenorol ar gyfer 1999-2000 a 2000-2001

[2] Mae'r ffigwr hwn yn cael ei gynnwys yng nghyfanswm yr awdurdodiadau

ATODIAD B

AWDURDODIADAU A RODDWYD AR GYFER AR-WYLIO YMWTHIOL DAN RAN II DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIOL 2000 A DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIOL (YR ALBAN) 2000 ODDI AR EU GWEITHREDU

	2000-2001[1]			**2001-2002**			**2002-2003**		
	Cymru, Lloegr a G.I	Yr Alban	Cyfanswm	Cymru, Lloegr a G.I	Yr Alban	Cyfanswm	Cymru, Lloegr a G.I	Yr Alban	Cyfanswm
Cyfanswm yr awdurdodiadau (heb gynnwys rhai a adnewyddwyd)	302	10	312	480	13	493	461	14	475
Achos yn ôl categori									
Modur preifat	112	5	117	178	7	185	173	3	176
Eiddo preswyl	190	5	195	302	6	308	288	11	299

[1] Mae rhai mân gywiriadau wedi cael eu gwneud i rai o'r ffigyrau a gofnodwyd yn flaenorol ar gyfer 1999-2000.

ATODIAD C

AMLDER AROLYGIADAU

Isod, amlinellir cynllun sy'n nodi amlder yr arolygiadau ar gyfer pob math o awdurdod. Mae amcangyfrif o nifer yr awdurdodau dan sylw wedi'i nodi mewn cromfachau ar ôl pob categori, er y dylid cadw mewn golwg bod gan rai o'r awdurdodau mwyaf nifer o ganghennau neu adrannau, a bod nifer y cyrff sy'n cael eu dileu a'u hychwanegu heb gael ei bennu eto.

Arolygiad blynyddol (66)
Lluoedd heddlu Cymru a Lloegr
Lluoedd heddlu yr Alban
Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon
Y Corfflu Troseddau Cenedlaethol
Y Gwasanaeth Cudd-ymchwil Troseddol Cenedlaethol
Tollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi
Asiantaeth Gorfodi Cyffuriau'r Alban
Lluoedd Ei Mawrhydi yng Ngogledd Iwerddon
Heddlu Trafnidiaeth Prydain
Cyllid y Wlad
Y Swyddfa Twyll Difrifol
Y Swyddfa Gartref (Y Gwasanaeth Mewnfudo a'r Gwasanaeth Carcharau)
Adran Gwaith a Phensiynau
Asiantaeth yr Amgylchedd
Y Post Brenhinol

Arolygiad bob yn ail flwyddyn (16)
Heddlu Milwrol Brenhinol
Heddlu'r Llu Awyr Brenhinol
Cangen Reoleiddio'r Llynges Frenhinol
Adran Masnach a Diwydiant
Gwasanaeth Gwrthdwyll yr Adran Iechyd
Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Adran Drafnidiaeth
Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin GIG yr Alban
Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn
Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig
Asiantaeth Taliadau Gwledig
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol
Gweithrediaeth yr Alban (Adran Materion Gwledig, Asiantaeth Gwyddorau Amaethyddol a'r Asiantaeth Amddiffyn Pysgodfeydd)

I'w harolygu yn eu tro mor aml ag y mae'r ddau gategori cyntaf yn caniatáu (441)
Awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban

Blaenoriaeth arolygu i'w phenderfynu (19)
Adran Drafnidiaeth (Adran Forwrol ac Adran Twnnel y Sianel a'r Rheilffyrdd)
Adran Iechyd (Asiantaeth Rheoli Meddyginiaethau)
Adran Gwaith a Phensiynau (Gwasanaethau Archwilio, Yr Asiantaeth Cynnal Plant, Diogelwch yr Adrannau, Yr Asiantaeth Bensiynau, Swyddfa Cydlynu Ymchwiliadau)
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Asiantaeth Safonau Bwyd
Gweithrediaeth yr Alban (Swyddfeydd Marchnata Materion Gwledig, Wyau ac Ieir, Arolygu Cig a Da Byw)
Gweithrediaeth yr Alban (Bwydydd Lles)
Asiantaeth *Accountant in Bankruptcy* yr Alban
Gwasanaeth Carcharau yr Alban
Gweithrediaeth yr Alban (Uned Arloesi a Chymorth)
Asiantaeth Amddiffyn yr Amgylchedd yr Alban
Cymdeithas Frenhinol y Cyffurwyr
Y Swyddfa Masnachu Teg
Cyrff sy'n cael eu creu o ganlyniad i aildrefnu'r GIG yn Lloegr

Argraffwyd yn y DU ar gyfer Y Llyfrfa Cyf.
ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi
09/03 065536 ID 152029

Cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa ac mae ar gael:

Ar-lein
www.tso.co.uk/bookshop

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebion drwy linell ffôn *Lo-Call* y Senedd 0845 702 3474
Archebion ffacs 0870 600 5533
E-bost book.orders@tso.co.uk
Ffôn testun 0870 240 3701

Siopau'r Llyfrfa
123 Kingsway, London WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD
0121 236 9696 Ffacs 0121 236 9699
9-21 Princess Street, Manchester M60 8AS
0161 834 7201 Ffacs 0161 833 0634
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd CF10 1PT
029 2039 5548 Ffacs 029 2038 4347
71 Lothian Road, Edinburgh EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

Asiantau Awdurdodedig Y Llyfrfa
(gweler *The Yellow Pages*)

a thrwy siopau llyfrau da